



**BUDDSODDWR MEWN POBL.**  
**INVESTOR IN PEOPLE**

# **Gwasanaethau Cymraeg Estyn mewn Perthynas ag Arolygiadau**

**Prif Swyddfa:**

**Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW**

**Ffôn: 029 2044 6446: Ffacs: 029 2044 6448**

**Swyddfa Gogledd Cymru:**

**Ty Broncoed, Parc Busnes Broncoed, Yr Wyddgrug, CH7 1HP**

**Ffôn: 029 2044 6447 Ffacs: 01352 758506**

## **Diben**

Mae'r daflen hon yn:

- rhoi amlinelliad i'n cwsmeriaid o'r gwasanaethau Cymraeg y mae Estyn yn eu darparu mewn perthynas ag arolygiadau o'r darparwyr addysg a hyfforddiant sy'n cael eu rhestru isod; ac yn
- darparu canllawiau i arolygwyr ar sut i ddarparu'r gwasanaethau Cymraeg hynny wrth gynnal arolygiadau.

Mae'r daflen yn seiliedig ar Gynllun Iaith Gymraeg Estyn, a gafodd ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ym mis Mawth 2003.

## **Cyflwyniad**

Estyn yw Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Ei diben yw:

- darparu arolygiadau o safon uchel i ddarparwyr addysg a hyfforddiant a gwasanaethau cysylltiedig yng Nghymru; a
- rhoi cyngor doeth ac annibynnol, ar sail tystiolaeth arolygiadau, i Lywodraeth Cynulliad Cymru i'w helpu i lunio ac arfarnu polisiau addysg a hyfforddiant.

Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu'r ddarpariaeth yn y sectorau addysg a hyfforddiant canlynol:

- ysgolion meithrin a lleoliadau addysgu nas cynhelir gan y wladwriaeth<sup>1</sup>;
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig gan gynnwys ysgolion arbennig
- annibynnol;
- •unedau cyfeirio disgyblion;
- •ysgolion annibynnol;
- •addysg bellach;
- •addysg oedolion a chymuned;
- •gwasanaethau cymorth i ieuenctid;
- •asiantaethau ieuenctid gwirfoddol;
- •AauALI;
- •addysgu a hyfforddi athrawon;
- •hyfforddiant yn seiliedig ar waith;
- •cwmnïau gyrfa; ac
- •elfennau addysg, gyrfaoedd a hyfforddiant y Fargen Newydd.

## **Egwyddor cydraddoldeb**

Mae Estyn wedi ymrwymo i'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon uchel, pa un a ydynt drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

---

<sup>1</sup> Lleoliadau addysgu nas cynhelir gan y wladwriaethyw ysgolion meithrin dydd, grwpiau chwarae a chanolfannau dydd yn y sectorau annibynnol, preifat a gwirfoddol.

Rydym yn gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb yn ein holl waith arolygu.

Mae hyn yn cynnwys y gwasanaethau arolygu yr ydym yn eu darparu ein hunain a'r arolygiadau y bydd arolygwyr annibynnol dan gytundeb yn eu cynnal. Y mae arolygwyr annibynnol yn arolygu tua 400 o ysgolion bob blwyddyn.

## Arolygu

Mae cydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg yn ein holl waith arolygu yn golygu y byddwn yn:

- darparu gwasanaethau dwyieithog lle bynnag y bo gofyn amdanynt;
- sicrhau bod pob cytundeb arolygu yn cydymffurfio â thelerau ein Cynllun Iaith;
- sicrhau bod manylebau cytundebau yn cynnwys gofynion penodol ynglyn â defnyddio'r Gymraeg;
- darparu canllawiau ysgrifenedig ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg ar gyfer staff sy'n ymdrin â chytundebau, ac ar gyfer arolygwyr annibynnolsy'n gweithredu ar ein rhan;
- defnyddio datganiadau sicrhau ansawdd gan gontractwyr ar y materion hyn wrth archwilio tendrau arolygu. Gallwn ddefnyddio'r amodau arolygu yn y cytundeb i sicrhau bod contractwyr yn gweithredu adrannau perthnasol ein Cynllun Iaith;
- monitro sampl o arolygiadau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion ein Cynllun Iaith ac amodau'r cytundeb arolygu;

- defnyddio'r wybodaeth yn deillio o'r gwaith monitro i sicrhau gwelliannau yn y modd yr ydym yn darparu gwasanaethau Cymraeg, yn ôl yr angen;
- gweithredu, yn ôl yr angen, ar sail materion mewn perthynas ag ansawdd ein gwasanaeth Cymraeg yn codi o'r holiaduron y mae darparwyr yn eu llenwi yn dilyn arolygiadau; a
- chynnal trafodaethau rheolaidd gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg ynglŷn ag ansawdd ein gwasanaeth arolygu Cymraeg a gweithrediad y bwriadau yn ein Cynllun Iaith.

## I Cyfarfodydd arolygu

Mewn perthynas â chyfarfodydd â rhieni, cyrff llywodraethu, a chyfarfodydd eraill, a gynhelir fel rhan o broses arolygu, y mae Estyn, lle bo'n briodol, yn:

- Ysgrifennu at bob darparwr yng Nghymru i ofyn i'r corff llywodraethol neu'r awdurdod priodol a fydd angen cyfieithu Cymraeg-Saesneg mewn cyfarfodydd arolygu. Y corff llywodraethu neu'r awdurdod priodol sy'n gyfrifol am benderfynu a fydd angen gwneud hynny, ar sail ystyriaethau yn cynnwys dymuniadau'r rhieni a natur ieithyddol y darparwr sy'n cael ei arolygu a'r ardal y mae'n ei wasanaethu. Bydd y cyfrifoldeb ar y corff llywodraethol neu'r awdurdod priodol i hysbysu Estyn am unrhyw newid i'r penderfyniad yn ystod y cyfnod yn arwain at yr arolygiad.
- Mynnu bod rhaid darparu gwasanaeth cyfieithu, lle y gofynnwyd am hynny, wrth wahodd contractwyr i gyflwyno tendr ar gyfer arolygu. Mae hyn yn wir

hefyd am bob arolygiad sy'n cael ei arwain gan Arolygwyr ei Mawrhydi.

- Monitro i ba raddau y mae timau arolygu yn cyflawni gofynion y cytundeb o ran darparu gwasanaeth cyfieithu.

## **Canllawiau i arolygwyr ar ddarparu gwasanaeth cyfieithu mewn cyfarfodydd arolygu**

Er mwyn sicrhau y caiff pawb siarad yn Gymraeg neu Saesneg mewn cyfarfodydd arolygu, dylai arolygwyr:

- sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu yn cael ei ddarparu lle y nodwyd hynny yn y cytundeb neu drefniadau arolygu;
- sicrhau wrth drefnu'r cyfarfodydd arolygu bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r trefniadau ymarferol y bydd eu hangen ar gyfer darparu'r gwasanaeth hwnnw; a
- chytuno rhag blaen â'r corff llywodraethol a fydd y gwasanaeth cyfieithu yn cael ei ddarparu naill ai drwy:
  - ddefnyddio cyfarpar cyfieithu ar y pryd; neu
  - gynnal y cyfarfod yn ddwyieithog.

## **Lle bydd contractwyr yn defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd:**

- yr asiantaeth arolygu sydd yn gyfrifol am y gost, a dylid ystyried hynny wrth lunio'r tendr am y cytundeb arolygu.

## **Lle bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal yn ddwyieithog, dylai'r arolygydd sydd yn cadeirio'r cyfarfod:**

- wneud datganiad clir ar ddechrau'r cyfarfod yn nodi bod croeso i unrhywun sydd yn bresennol siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg;
- sicrhau bod unrhyw gwestiynau neu sylwadau ganddo/ganddi neu gydweithiwr iddo/iddi yn ddwyieithog, a glynu at yr egwyddor honno drwy gydol y cyfarfod; a
- rhoi crynodeb yn Saesneg o unrhyw sylw a wneir yn Gymraeg gan rieni, llywodraethwyr neu bersonau eraill.
- monitro sampl o arolygiadau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion ein Cynllun Iaith ac amodau'r cytundeb arolygu.

## **Adroddiadau arolygu**

Gall unrhyw berson sy'n gysylltiedig â'r darparwr sy'n cael ei arolygu ddisgwyl gweld adroddiad dwyieithog lle bu gofyn am hynny gan y darparwr. Os na ofynnir am adroddiad dwyieithog, fersiwn Saesneg yn unig a

gyhoeddir. Bydd adroddiad dwyieithog yn cael ei ddarparu yn unol â pholisi awdurdod lleol yn achos darparwr y mae'n ei gynnal.

## Sylwadau ar y canllawiau hyn

Os oes gennych unrhyw sylwadau, dylech ysgrifennu at: Mererid Williams, Arolygydd Rheoli, Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd CF24 5JW.

## Cwynion

Mae Estyn yn delio â phob cwyn am ei wasanaeth Cymraeg yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni yn nhrefn gwynion Estyn. Mae'r drefn hon i'w gweld ar ein gwefan [www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk). Byddwn yn ystyried pob cwyn yn ofalus, drwy archwilio tystiolaeth, darparu ymateb a gweithredu newidiadau dilynol, lle bo angen.

